Ysgol Gorslas

Canllawiau Dychwelyd i'r Ysgol

Os dydych chi ddim wedi rhoi gwybod i aelod o staff yn barod, gofynnwn i chi gysylltu gyda'r ysgol, trwy ffonio neu anfon neges e-bost, i nodi os ydych chi'n bwriadu anfon eich plentyn yn ôl i'r ysgol <u>erbyn amser cinio Ddydd Mercher Mehefin 24ain</u>. Bydd hyn yn ein galluogi ni i gadarnhau'r trefniadau yn seiliedig ar niferoedd pendant.

Ysgol Gorslas - Canllaw Dychwelyd i'r ysgol 29/6/20

Datganiad y Llywodraeth

Mae datganiad y Gweinidog Addysg yn amlinellu mai dyddiadau "cadw cysylltiad/ check-in" fydd y cyfnod hyd at ddiwedd yr haf. Oherwydd capasiti'r ysgol bydd blynyddoedd penodol yn mynychu am ddiwrnod yn unig yn ogystal â derbyn canllawiau dysgu ar-lein pan na fyddant yn yr ysgol.

Bydd yr ysgol ar agor i un grwp blwyddyn y dydd ond gyda niferoedd llai ymhob dosbarth, 5 ar y mwya ac amserau dechrau, egwyl a gorffen wedi'u gwasgaru. Mae'r atodiad yn rhoi'r dyddiadau ar gyfer pob blwyddyn.

Bydd plant yn cael cynnig sesiynau wyneb yn wyneb gyda'r athrawon yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r wythnosau olaf y flwyddyn yn cynnig cyfle arbennig i ni groesawu ein plant yn ôl i ryw raddau, i ddal i fyny ac i'r plant a'r staff i gael cyswllt. Byddwn hefyd yn gallu ymgyfarwyddo'r disgyblion â'r 'normal newydd 'a sut bydd hyn yn datblygu ym mis Medi.

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r holl fesurau yr ydym yn eu cymryd i leihau'r risgiau ac i'ch sicrhau y gall eich plentyn ddod i'r ysgol yn ddiogel ac elwa eto o'r holl brofiadau cadarnhaol.

Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn:

• meithrin a chefnogi iechyd a lles ein plant fel ein blaenoriaeth gyntaf, yn enwedig y rhai sy'n teimlo'n bryderus

• sicrhau bod amser penodol ar gyfer gweithgareddau strwythuredig, i ail-gydio a chysylltu eto â dysgwyr a staff eraill

• cefnogi plant i ddeall a chydymffurfio i ofynion hylendid a chadw pellter cymdeithasol

• cynnig cyfleoedd i blant fwynhau ystod o weithgareddau corfforol.

• darparu digon o gyfleoedd i ddysgu a chwarae yn yr awyr agored

• canolbwyntio ar anghenion dysgwyr unigol.

Bydd ein disgwyliadau yn rhesymol, yn cael eu cyflwyno'n briodol ac yn cefnogi lles ein disgyblion.

Bydd plant yn cael cyfle i chwarae a chymdeithasu trwy weithgareddau strwythuredig a llai ffurfiol.

Capasiti

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei chanllaw bod disgwyl i'r mwyafrif o ysgolion gynnig hyd at dri diwrnod o 'check in' cyn diwedd yr haf.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi cyfrifo capasiti'r ysgol yn seiliedig ar arwynebedd llawr a'r canllawiau pellhau cymdeithasol cyfredol. Mae hyn yn cyfyngu niferoedd o ran sicrhau diogelwch ac yn caniatáu i ni gadw gwagle priodol. Capasiti ein hysgol ni ydy **uchafswm o 25 disgybl ar y safle bob dydd.**

Gofal Plant

Bydd Gofal plant ar gyfer plant gweithwyr allweddol sydd wedi mynychu'r ysgolion Hwb rhwng 23/3/20 i'r 26/6/20 a phlant staff yr ysgol sy'n gorfod dychwelyd i'r gwaith ar y 29/6/20. Bydd ceisiadau gan rieni sydd heb ddefnyddio'r hybiau o'r blaen yn gallu cael eu gwneud ar wefan y Sir ond fe fydd hwn yn cael ei gyfyngu oherwydd capasiti'r ysgol.

Mae'n hanfodol felly, eich bod yn cadw at ganllawiau'r llywodraeth cyn cofrestru eich plentyn yn yr HWB. Hynny yw "rhoddir blaenoriaeth i'ch gofal plant os yw eich gwaith yn hollbwysig i'r ymateb i COVID-19 ac NAD YW EICH PLENTYN YN GALLU AROS GARTREF"

Bydd Gofal Plant yn yr ysgol o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8yb a 3.30yp.

Beth sydd angen ar fy mhlentyn wrth ddychwelyd?

Dylai pob disgybl ddod â: -

• photel ddŵr y gellir ei hail-lenwi

• het ac eli haul os bydd y tywydd yn braf

• ni fydd brecwast na chinio yn cael ei ddarparu gan gynnwys plant yn y Clwb Gofal felly bydd angen pecyn bwyd a byrbryd ar gyfer y dydd. Bydd hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim (bydd taliadau uniongyrchol yn parhau i gael eu gwneud tan ddiwedd y tymor).

Bydd plant yn bwyta eu pecyn bwyd yn eu hystafelloedd dosbarth neu'r tu allan yn dibynnu ar y tywydd.

Bydd yr ysgol yn darparu pecynnau i blant yn cynnwys pensil, rhwbiwr, pen a phren mesur ayyb. Ni fydd plant yn gallu dod â'u hoffer eu hunain.

Gwisg

Nid oes rhaid i'r disgyblion wisgo 'gwisg ysgol'. Gan y byddan nhw'n treulio tipyn o amser tu allan ac yn gwneud gweithgareddau bydd dillad ymarfer corff cyfforddus a trainers yn iawn. Y cyngor yw i olchi'r dillad yn ddyddiol ar ôl i'ch plentyn adael yr ysgol.

Trefniadau Gollwng a Chasglu

Rydym wedi trefnu amseroedd gollwng a chasglu penodol er mwyn cyfyngu ar y niferoedd sy'n cyrraedd y safle ar yr un adeg. Bydd system un ffordd i fewn ac allan o'r ysgol. Bydd **pob** plentyn yn dod i fewn drwy'r brif fynedfa arferol. **Ni fydd** y giat waelod ar agor yn ystod y bore na'r prynhawn,

Un rhiant yn unig fydd yn gallu tywys eu plentyn i'r giat yn y bore a chasglu ar ddiwedd y prynhawn. **Yn anffodus, <u>ni fydd rhieni</u> yn gallu dod i fewn i'r ysgol.** Bydd staff yn bresennol i arwain a chynghori ar ddechrau a diwedd pob dydd.

Clwb Gofal – gollwng am 8yb a chasglu am 3.30yp

Blynyddoedd penodol - gollwng am 9yb a chasglu am 3yp.

Amseroedd Chwarae

Bydd plant yn cael eu goruchwylio gan staff yr ysgol yn ystod amseroedd chwarae. Bydd amseroedd chwarae ac ardaloedd chwarae yn cael eu gwahanu fel bod plant yn chwarae gyda'u grwpiau addysgu.

Bydd staff bob amser yn ymdrechu i sicrhau pellter cymdeithasol priodol yn ystod amser chwarae, yn dibynnu ar oedran a dealltwriaeth y plant.

Dosbarthiadau

• Lle bynnag y bo modd, bydd yr un plant a staff yn defnyddio'r un ystafell ddosbarth

• Mae dodrefn a desgiau wedi eu tynnu allan i greu mwy o le.

• Bydd adnoddau'n cael eu glanhau ar ôl eu defnyddio.

• Bydd drysau a ffenestri'n cael eu cadw ar agor er mwyn caniatáu digon o awyr iach.

Symud o Amgylch Yr Ysgol

Rydym wedi sefydlu system unffordd ar gyfer teithio o amgylch yr adeilad. Bydd disgyblion yn cael eu hebrwng gan athrawon/ cynorthwy-wyr i'r cyfeiriad hwn (amser chwarae, amser cinio, amser mynd adre ac ati).

Cadw Pellter Cymdeithasol

Byddwn yn gweithredu'r mesurau cadw pellter cymdeithasol cyn belled ag y gallwn, mewn modd cadarnhaol, gan sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn derbyn gofal

Tu fewn i'r Ysgol

Bydd bylchau dau fetr wedi'u marcio yn ardal y cyntedd ac ar hyd y coridorau i hysbysu'r disgyblion a phosteri ar y waliau i'w hatgoffa.

Mae bylchau wedi'u nodi ar gyfer rhieni amser gollwng/casglu.

Mae'r holl staff yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cadw pellter cymdeithasol lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

Glanhau a Diheintio

Bydd yr adeilad yn cael ei lanhau'n rheolaidd ac o leiaf unwaith y dydd. Bydd ymarfer glanhau arbennig ar ddyddiau Gwener bob wythnos hefyd.

Bydd gan bob dosbarth ddeunyddiau glanhau argyfer glanhau adnoddau / arwynebau cyffwrdd, a bydd glanweithydd dwylo yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau allweddol.

Dim ond un disgybl a ganiateir mewn unrhyw floc toiled ar y tro.

Sefydlir amseroedd golchi dwylo penodol ar gyfer disgyblion.

Bydd posteri golchi dwylo yn cael eu harddangos. Bydd gan blant fynediad at ystod o ddeunyddiau golchi dwylo - sebon hylif a pheiriannau sebon meddal.

Bydd disgyblion yn golchi eu dwylo â dwr a sebon am o leiaf 20 eiliad yn rheolaidd, Byddant yn golchi dwylo wrth gyrraedd yr ysgol, cyn ac ar ôl trin bwyd, cyn ac ar ôl trin gwrthrychau ac offer, ac ar ôl iddynt chwythu eu trwyn, tisian neu beswch.

Darperir PPE priodol ar gyfer gofal personol, Cymorth Cyntaf ac ati. Gwneir asesiad risg ar gyfer pob plentyn sydd angen gofal personol a phenodol a defnyddir y PPE priodol yn

unol â hynny.

Asesiad Risg

Gofynnir i chi gwblhau asesiad risg iechyd disgyblion pan fydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol.

Ni ddylai plant fynychu'r ysgol o dan unrhyw amgylchiadau os ydyn nhw'n:-

• teimlo'n sâl, neu'n dangos unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl) neu maent wedi profi'n bositif i COVID-19 yn y 14 diwrnod diwethaf

• byw mewn cartref gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi profi'n bositif i COVID-19 yn y 14 diwrnod diwethaf.

• cydymffurfio â'r gofynion hunan-ynysu angenrheidiol yn y ddau achos

Atodiad -Trefniadau Dychwelyd i'r Ysgol 9yb-3yp

Bl.6:- 29.6.20, 6.7.20, 16.7.20

Bl.5:- 30.6.20, 7.7.20,

Bl 4 :-1.7.20, 8.7.20,

Bl3 :-2.7.20, 9.7.20,

Bl 2:-13.7.20

Bl 1:- 14.7.20

15.7.20 Dosbarth Derbyn rhwng 9yb a 11.30yp

Bydd yr ysgol ar agor ar gyfer darpariaeth yr hwb yn unig ar ddyddiau Gwener. Oherwydd natur yr adeilad a'r capasiti sydd wedi ei osod h.y niferoedd bychan ym mhob dosbarth, efallai bydd gofyn i **bob** aelod o staff weithio yn yr ysgol bob dydd. Felly, bydd staff addysgu yn paratoi ac yn marcio gwaith ar lein ar ddyddiau Gwener.

Bydd y plant Meithrin oedd fod i ddechrau amser Pasg 2020 yn dechrau ym mis Medi.